# Bil Cymwysterau Cymru: Crynodeb o'r newidiadau a wnaed yng Nghyfnod 2

## Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r **prif newidiadau** a wnaed i ***Fil Cymwysterau Cymru*** ('y Bil' o hyn allan) **yn ystod trafodion Cyfnod 2**. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer trosglwyddo'r cyfrifoldeb o reoleiddio cymwysterau yng Nghymru o Lywodraeth Cymru i **gorff annibynnol newydd, 'Cymwysterau Cymru'**

## Cefndir

Cyflwynwyd y Bil ar **1 Rhagfyr 2014** gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau a wnaeth **ddatganiad llafar hefyd yn y Cyfarfod Llawn** y diwrnod canlynol. Yna, anfonwyd y Bil at **y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**, ('y Pwyllgor' o hyn allan), ar gyfer gwaith craffu Cyfnod 1.

Cyhoeddodd y Pwyllgor ei **adroddiad Cyfnod 1** ym mis Mawrth 2014. Hefyd, bu'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn craffu ar y Bil, gan gyhoeddi **adroddiad** yr un mis.

Trafodwyd a chymeradwywyd egwyddorion cyffredinol y Bil yn y Cyfarfod Llawn ar **24 Mawrth 2015**.

Dechreuodd Cyfnod 2 ar 25 Mawrth 2015. Cyflwynwyd cyfanswm o 76 o welliannau, y cyflwynodd y Gweinidog 55 ohonynt. Cyfarfu'r Pwyllgor i ystyried a gwaredu'r gwelliannau ar **30 Ebrill 2015**.

Mae rhagor o wybodaeth am y Bil (fel y'i cyflwynwyd) ar gael yn y ddogfen **Crynodeb o Fil** a baratowyd gan y Gwasanaeth Ymchwil ym mis Ionawr 2015.

Mae **fersiwn ddiwygiedig o'r Bil** yn dilyn Cyfnod 2 wedi'i llunio.

## Gwelliannau yng Nghyfnod 2

**Derbyniodd y Pwyllgor** bob un o'r **55 o welliannau** a gyflwynwyd gan **Lywodraeth Cymru**.

Fodd bynnag, **ymatalodd Aelodau'r Wrthblaid** rhag pleidleisio ar nifer o welliannau yn ymwneud â **Rhan newydd** yn cael ei hychwanegu at y Bil, yn darparu ar gyfer **'cymwysterau dynodedig'**.

O'r 21 o welliannau **nad gwelliannau'r Llywodraeth ydynt, dim ond un a dderbyniwyd**. Roedd y gwelliant hwn (Gwelliant 68) yn cryfhau'r gofyniad ar Cymwysterau Cymru i gynnwys manylion yn ei adroddiad blynyddol am sut y mae wedi ymgynghori â rhanddeiliaid yn y flwyddyn flaenorol. Cafodd 'a yw Cymwysterau Cymru wedi cynnwys rhanddeiliaid wrth arfer ei swyddogaethau yn ystod y cyfnod adrodd ac, os ydyw, sut y mae wedi gwneud hynny' ei hepgor a mewnosodwyd 'sut y mae Cymwysterau Cymru wedi cynnwys rhanddeiliaid wrth arfer ei swyddogaethau yn ystod y cyfnod adrodd'. Gwnaed hyn fel bod yn **rhaid i Cymwysterau Cymru** adrodd ar ***sut*** y mae wedi ymgynghori, **nid dim ond *a yw*** wedi adrodd, gan ddarparu rhagdybiaeth gadarnhach y byddai ymgyngoriadau o'r fath yn cael eu cynnal.

Mae crynodeb isod o'r prif newidiadau a wnaed i'r Bil. Noder fod y rhifau adrannau yn cyfeirio at y Bil fel y'i cyflwynwyd, ac eithrio lle mae rhan neu adran newydd wedi cael ei hychwanegu.

### Dynodid cymwysterau

Roedd un o welliannau (Gwelliant 26) y Gweinidog yn mewnosod **rhan newydd (Rhan 5) i'r Bil** ynghylch categori newydd o gymwysterau a elwir yn **'gymwysterau dynodedig'**. Eglurodd y Gweinidog mai ffordd o sicrhau **parhad yng nghamau trosiannol cynnar** Cymwysterau Cymru oedd hon. Bydd y newid yn golygu y gall y corff ddynodi ffurf o gymhwyster fel ei bod yn **gymwys i'w defnyddio ar gyrsiau a ariennir yn gyhoeddus** ar gyfer dysgwyr

o dan 19 oed.

Roedd y Bil, fel y'i cyflwynwyd, yn ei gwneud yn ofynnol bod cymhwyster yn cael ei chymeradwyo gan Cymwysterau Cymru er mwyn iddi gael ei defnyddio ar gyrsiau a ariennir yn gyhoeddus ar gyfer pobl ifanc o dan 19 oed. Yn ôl Llywodraeth Cymru, roedd hyn yn cyflwyno **problemau ymarferol** i Cymwysterau Cymru na fyddai'n gallu treulio'r **amser angenrheidiol** yn cyflawni **proses gymeradwyo gadarn** ar gyfer pob cymhwyster heb aflonyddu ar ddysgwyr.

Yr opsiwn arall fyddai i Weinidogion Cymru ddefnyddio eu pŵer wrth gefn o eithrio ar gyfer pob cwrs unigol. Cred y Gweinidog y byddai'n well i Cymwysterau Cymru gael y pŵer hwn o ddynodi ei hun, gan ei fod yn cyd-fynd yn well â'i statws fel rheoleiddiwr annibynnol.

Eglurodd y Gweinidog i'r Pwyllgor y rheswm dros gymwysterau dynodedig fel a ganlyn:

'Being able to designate some qualifications rather than approve will strengthen Qualifications Wales's ability to **focus on priority qualifications**, and will mean that approval really does indicate that a **robust consideration** has been given to **qualifications that are approved**. It also means that [Qualifications Wales] would not need to devote resources to reviewing in detail the thousands of qualifications that are already in the system. It will be able to **start with a relatively clean sheet of paper**, so to speak, to build a bank of qualifications that will underpin the assessment of learners in Wales.'

Mae un o welliannau eraill y Gweinidog yn ei gwneud yn ofynnol i Cymwysterau Cymru nodi **cyfnod penodol** wrth ddynodi cymhwyster unigol. Mae hyn yn adlewyrchu bwriad Llywodraeth Cymru bod Rhan 5 newydd y Bil wedi'i dylunio i wella'r trawsnewid a chaniatáu ar gyfer unrhyw barhad yn y byrdymor.

Fodd bynnag, roedd y Pwyllgor (ar ôl pleidlais fwrw y Cadeirydd) yn cefnogi dadl y Gweinidog yn **gwrthod gwelliannau** (Gwelliannau 27A a 73) sy'n ei gwneud yn ofynnol bod **uchafswm amser** lle gall Cymwysterau Cymru **ddefnyddio'r pwerau i ddynodi**.

Ymhlith y gwelliannau llwyddiannus eraill gan y Gweinidog i'r Rhan 5 newydd roedd darpariaeth drosiannol arall pan fo cymhwyster yn peidio â bod wedi'i dynodi gan ei bod wedi'i chymeradwyo; darpariaeth i Cymwysterau Cymru ddirymu dynodiad; a nifer o welliannau canlyniadol i adrannau eraill o'r Bil.

**Mynegodd Aelodau'r Wrthblaid bryder** ynghylch y Rhan 5 newydd yn cael ei hychwanegu at y Bil yng Nghyfnod 2. Dadleuwyd fod hyn yn cyflwyno elfen newydd arwyddocaol i'r Bil nad oedd wedi bod yn destun gwaith craffu yng Nghyfnod 1 yn yr un ffordd â gweddill y Bil. Fodd bynnag, **ymataliodd** yr Aelodau o'r pleidleisiau ar Welliant 26 a gwelliannau canlyniadol a chysylltiedig eraill, yn hytrach na'u gwrthod, **fel na châi cynnydd Bil ei atal** pan fo cefnogaeth drawsbleidiol gyffredinol.

Mae'r **Pwyllgor wedi gofyn am sylwadau ynghylch y pwerau dynodi newydd** gan y rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad gwreiddiol yn ystod Cyfnod 1, gyda'r nod o lywio ystyriaethau'r Aelodau yng Nghyfnod 3.

## Gwelliannau amrywiol a thechnegol

Roedd yr ail grŵp o welliannau a ystyriwyd yng Nghyfnod 2 yn dechnegol eu natur ac yn ymwneud â drafftio'r Bil. Felly, **ni wnaethant gyflwyno unrhyw newid mewn polisi nac addasu'n sylweddol ddiben ac effaith** y Bil. Cawsant i gyd eu cefnogi'n unfrydol gan y Pwyllgor.

Roedd y grŵp hwn yn cynnwys **un gwelliant llwyddiannus gan yr wrthblaid** (Gwelliant 68), y cyfeirir ato uchod.

## Rôl rheoleiddio Cymwysterau Cymru: cydnabod cyrff dyfarnu

Mae Gwelliant 35, a gyflwynwyd gan y Gweinidog, yn **ymestyn cwmpas** cylch gwaith rheoleiddio Cymwysterau Cymru **i unrhyw gymhwyster a gynigir gan gorff dyfarnu cydnabyddedig yng Nghymru**, **hyd yn oed os nad yw wedi'i chymeradwyo neu ei dynodi'n benodol gan Cymwysterau Cymru**.

Roedd y Bil, fel y'i cyflwynwyd, yn cyfyngu cylch gwaith Cymwysterau Cymru i gymwysterau yr oedd

wedi'u cymeradwyo'n benodol. Roedd y Gweinidog yn dadlau bod hyn yn **cyfyngu'n ormodol ar allu** Cymwysterau Cymru i sicrhau effeithiolrwydd y system gymwysterau ar gyfer diwallu anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru (un o'i brif nodau).

Ar gyfer y Gweinidog, bydd ymestyn cwmpas Cymwysterau Cymru i ddiogelu buddiannau dysgwyr yng Nghymru sy'n dilyn cymwysterau eraill a ddyfernir gan gyrff cydnabyddedig, **er enghraifft y rheini a gaiff eu rheoleiddio gan Ofqual, y rheoleiddiwr yn Lloegr**, yn darparu haen werthfawr o ddiogelwch ar gyfer dysgwyr yng Nghymru.

Cafodd Gwelliant 35 a sawl gwelliant canlyniadol arall eu **cefnogi'n unfrydol** gan y Pwyllgor.

Mae un o welliannau eraill y Gweinidog yn y grŵp hwn (Gwelliant 20) yn **galluogi cyrff dyfarnu** a gydnabyddir gan Cymwysterau Cymru i **'optio allan' o reoleiddio** ar gyfer rhai o'i gymwysterau. Fel yr eglurodd y Gweinidog i'r Pwyllgor, 'this is because – as is presently the case – the regulation of qualifications will remain a **voluntary system**'.

Ni fyddai unrhyw gymwysterau y bydd corff dyfarnu yn dewis eu heithrio o reoliad Cymwysterau Cymru wedyn yn gymwys i gyrsiau a ariennir yn gyhoeddus ar gyfer dysgwyr o dan 19 oed. Fodd bynnag, mae'r gwelliant yn cydnabod y dylai corff dyfarnu allu cyflwyno rheoliad ar gyfer cymwysterau yr hoffai iddynt fod yn gymwys ar gyfer arian cyhoeddus, tra'n cadw cymwysterau eraill a gynigir ganddo y tu allan i'r system reoleiddio.

Cafodd Gwelliant 20 a gwelliannau canlyniadol a chysylltiedig eraill eu cefnogi'n unfrydol gan y Pwyllgor.

## Ariannu cyrsiau sy'n arwain at gymwysterau

Roedd Gwelliannau 31 a 33 yn dilyn ymgymeriad y Gweinidog i edrych yn agos ar un o argymhellion y Pwyllgor yng Nghyfnod 1, sef ei fod yn ailystyried geiriad adran 29(3) o'r Bil, a'r cyfeiriad at **fersiwn Gymreig o'r cymhwyster** at ddibenion penderfynu ar **gymhwysedd defnyddio cymwysterau ar gyrsiau a ariennir yn gyhoeddus** ar gyfer dysgwyr o dan 19 oed.

Roedd y Pwyllgor wedi cael tystiolaeth fod y **diffiniad hwn yn amwys** ac y dylid ei egluro er mwyn ei gwneud yn glir mai'r meini prawf yw bod yn rhaid i gymhwyster gael ei chymeradwyo [neu ei dynodi yn unol â'r broses ychwanegol newydd] gan Cymwysterau Cymru.

Dywedodd y **Gweinidog** wrth y Pwyllgor ei fod yn **falch o dderbyn argymhelliad y Pwyllgor** a chadarnhaodd fod y term 'fersiwn Gymreig o'r cymhwyster' yn fod yn **label i ddisgrifio cymhwyster sydd wedi ei gymeradwyo gan Cymwysterau Cymru i'w ddyfarnu yng Nghymru**.

Cafodd Gwelliannau 31 a 33, ynghyd â gwelliannau canlyniadol a chysylltiedig eraill, eu cefnogi gan y Pwyllgor. Cafodd y term **'fersiwn Gymreig o'r cymhwyster' ei dynnu o'r Bil** a'i ddisodli gan eiriad a oedd yn adlewyrchu mai'r ffactor pwysig oedd cymeradwyaeth neu ddynodiad gan Cymwysterau Cymru o dan y Bil.

Mae Gwelliant 51 **yn datgymhwyso agweddau ar *Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000* ar gyfer Cymru**, er mwyn cydnabod y byddai gofynion ar gyfer cymwysterau a ariennir yn gyhoeddus yng Nghymru bellach yn cael eu pennu gan y Bil hwn. Cafodd nifer o welliannau canlyniadol a chysylltiedig eu cefnogi hefyd.

Roedd gwelliant arall **(Gwelliant 8) yn cywiro anghysondeb** yn y Bil fel y'i drafftiwyd yn wreiddiol. Mae hyn yn darparu pan fo cymwysterau/cyrsiau ar gyfer dysgwyr sydd ag anawsterau dysgu yn gymwys ar gyfer arian cyhoeddus, bod hyn ond yn gymwys i'r dysgwyr penodol hynny ac nid pawb sy'n dilyn y cwrs.

## Gwelliannau a gafodd eu trechu

O'r 21 o welliannau a gyflwynwyd gan Aelodau'r Wrthblaid ar y Pwyllgor, cafodd 20 eu trechu. Ymhlith y **gwelliannau a gafodd eu trechu** roedd:

- **Dyletswydd gyffredinol ar Weinidogion Cymru** i hyrwyddo'r system gymwysterau yng Nghymru;
- Gofynion penodol ar Cymwysterau Cymru i: **hyrwyddo parch cydradd** rhwng cymwysterau galwedigaethol a chymwysterau academaidd; a **hyrwyddo cydnawsedd** cymwysterau yng Nghymru â'u cydrannau Ewropeaidd;
- Dyletswydd ar Weinidogion Cymru i **gyhoeddi'r ddogfen fframwaith** a'r **llythyr cylch gorchwyl** blynyddol;
- Dyletswydd ar y Gweinidog i adrodd ar p'un a fydd Cymwysterau Cymru yn dod yn awdurdod cyflwyno ar gyfer **prentisiaethau**;
- Dyletswydd ar Cymwysterau Cymru i **ymgynghori â rhanddeiliaid** wth benderfynu a ddylid blaenoriaethu neu gyfyngu ar gymhwyster, a **chyhoeddi manylion am ei reswm** dros yr ymagwedd tuag at gymwysterau galwedigaethol ac academaidd yn y drefn honno;
- Gofyniad i Cymwysterau Cymru **asesu effaith unrhyw gyfyngiad** ar gymwysterau â blaenoriaeth;
- Dyletswydd ar Weinidogion Cymru i nodi **uchafswm amser** lle gall Cymwysterau Cymru ddefnyddio ei bwerau i **ddynodi** cymwysterau;
- Ychwanegu, at y rhestr o **reolau** y gall Cymwysterau Cymru eu gwneud ynghylch ceisiadau, yr amgylchiadau lle gall roi **cyngor cyn gwneud cais** i gorff dyfarnu;
- Dyletswydd ar Weinidogion Cymru i baratoi **protocol** y mae'n rhaid i Cymwysterau Cymru ei hystyried wrth gyflawni gweithgareddau **masnachol**;
- Gofyniad ar Cymwysterau Cymru i **gynnal adolygiad blynyddol o effaith unrhyw daliadau** y mae'n eu codi ar gyrff dyfarnu am geisiadau;
- Ychwanegu **Diplomâu Mynediad at Addysg Uwch** at y rhestr o gymwysterau sydd wedi'u heithrio o gylch gwaith Cymwysterau Cymru;
- Ei gwneud yn ofynnol i'r **Gorchymyn Cychwyn**, a fydd yn dod â darpariaethau'r Ddeddf i rym, fod yn destun trosolwg (penderfyniad negyddol) y Cynulliad.

## Ymrwymiadau gan y Gweinidog

Wrth ymateb i bryderon ynghylch tryloywder y **ddogfen fframwaith** a'r llythyr cylch gwaith blynyddol (a elwir y **'llythyr dyrannu grant'**), yn nadl Cyfnod 1**, ymrwymodd y Gweinidog i gyhoeddi'r ddau** pan fo Llywodraeth Cymru yn eu cyflwyno i Cymwysterau Cymru. Fodd bynnag, fel y nodir uchod, gwrthododd y Gweinidog welliant i Gyfnod 2 i wneud hyn yn ddyletswydd benodol yn y Bil. Dywedodd nad oedd angen gwneud hyn gan ei fod eisoes yn arfer weinyddol safonol.

Rhoddodd y Gweinidog wybod i'r Pwyllgor yng Nghyfnod 2 y byddai angen gosod **cynlluniau trosglwyddo**, sy'n rhoi manylion am drosglwyddo eiddo a staff o Lywodraeth Cymru i Cymwysterau Cymru, **gerbron y Cynulliad**.

Dywedodd y Gweinidog hefyd wrth y Pwyllgor ei fod eisoes wedi ymrwymo i ystyried **pa rôl y gall Cymwysterau Cymru ei chwarae mewn perthynas â phrentisiaethau**. Bydd yn gwneud hyn ar ôl ystyried canlyniad yr adolygiad o'r fframwaith prentisiaethau yng Nghymru, gan ychwanegu ei fod yn rhan o'r gwaith ehangach hwn ar brentisiaethau. Er **nad yw'n fater sy'n benodol i'r Bil hwn**, rhoddodd y Gweinidog sicrwydd i'r Pwyllgor **nad oes senario** lle gallai'r cwestiwn hwn (ynghylch rôl Cymwysterau Cymru o ran prentisiaethau) **gael ei anghofio**.

## Y camau nesaf

**Mae fersiwn ddiwygiedig o'r Bil yn dilyn Cyfnod 2 wedi'i llunio.**

Dechreuodd trafodion Cyfnod 3 ar 1 Mai 2015 (y diwrnod ar ôl cwblhau trafodion Cyfnod 2).

Mae **dadl Cyfnod 3** wedi'i threfnu ar gyfer **dydd Mawrth 9 Mehefin 2015**.

**Gall yr Aelodau gyflwyno gwelliannau hyd at 18:00 ddydd Mawrth 2 Mehefin 2015 drwy e-bostio Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth yn SwyddfaDdeddfwriaeth@cymru.gov.uk.**

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am y *Bil Cymwysterau Cymru*, cysylltwch ag unrhyw un o'r aelodau a ganlyn o staff y Comisiwn:

**Gareth Rogers**, Prif glerc cyfrifol
(**gareth.rogers@cynulliad.cymru**)

**Stephen Davies**, y Gwasanaethau Cyfreithiol
(**stephen.davies@cynulliad.cymru**)

**Michael Dauncey**, y Gwasanaeth Ymchwil
(**michael.dauncey@cynulliad.cymru**)